



Radyr & Morganstown Community Council Cyngor Cymuned Radur a Threforgan

Yr Hen Ysgoldy'r Eglwys
Radur
Caerdydd CF15 8DF

23 Gorffennaf 2019

Huw Thomas
Arweinydd y Cyngor
Cyngor Caerdydd
Neuadd y Sir
Caerdydd CF10 4UW

Annwyl Huw

Cae Chwarae Clos Parc Radur

Byddwch yn ymwybodol bod gwaith wedi bod yn mynd rhagddo ers peth amser bellach, i adnewyddu'r maes chwarae i blant oddi ar Ffordd y Porthmyn, yng Nghlos Parc Radur.

Y sefyllfa ar hyn o bryd yw bod y rhan fwyaf o offer y parc wedi cael ei symud. Ym mhob achos, roedd y sylfeini wedi rhydu i ffwrdd, oherwydd llifogydd rheolaidd yn yr ardal chwarae.

Ers i ni godi'r mater hwn gyda Chyngor Caerdydd am y tro cyntaf, yn 2017, rydym wedi gweld cynnydd cyson o ran adfer y safle.

Mae'r cyngor cymuned wedi clustnodi £5,000 tuag at gost offer newydd, fel y mae'r trigolion lleol, trwy Bwyllgor Rheoli Parc Radyr. Yn ogystal â'r £10,000 hwnnw, codwyd £2,600 arall diolch i ymdrechion un o'r trigolion lleol, Jamie Grundy, a lansiodd ymgyrch ariannu torfol i 'lenwi'r chwarter sy'n weddill;' o'r iard chwarae.

Mae Cyngor Caerdydd hefyd wedi neilltuo arian ar gyfer y prosiect hwn - ac wedi sicrhau grant gan Lywodraeth Cymru. A diolchwn hefyd i Adrian Jones, yn eich Adran Parciau, am ei gyngor a'i gefnogaeth ardderchog.

Yn ychwanegol, mae Redrow Homes a Phlasdwr wedi cynnig eu cefnogaeth.

Diolch i ymdrechion pawb dan sylw, rydym bellach yn gallu prynu'r holl offer newydd sydd ei angen ar gyfer yr iard chwarae.

Fodd bynnag, cyn y gellir ei osod, mae angen gwaith i wella draeniad ar y safle - a fydd yn costio rhwng £15k a £20k. Mae pawb sy'n ymwneud â'r prosiect yn cytuno bod yn rhaid delio â'r mater draenio cyn gosod unrhyw offer newydd. Os na wneir hyn, bydd y mwd a'r dŵr sy'n llifo ar y safle yn byrhau bywyd yr offer newydd - yn ogystal â gwneud i'r buarth chwarae edrych yn hyll.

Ar ddiwedd y dydd, mae'r safle yn perthyn i Gyngor Caerdydd. Er hynny, mae'r gymuned leol wedi bod yn barod i gyfrannu at y gwaith adfer.

Y cyfan sydd ar ôl yw darganfod yr arian i ddelio â'r mater draenio. Deallaf fod Redrow yn barod i gyfrannu £5,000 (ond nid wyf eto wedi clywed a fydd hynny'n arian, neu'n gyfraniad mewn da). Gallai hynny olygu bod yn rhaid i Gyngor Caerdydd ddod o hyd i rhwng £10k a £15k.

Mae'r haf wedi cyrraedd, ond mae'r parc yn parhau i fod yn wag yn bennaf. Yn ddealladwy, mae peth rhwystredigaeth yn lleol. Mae yna deimlad ein bod wedi ein hamgylchynu gan waith ffordd a datblygu adeiladau; bod ein cymuned dan bwysau - ac y dylid gwneud mwy i helpu ein cymuned ar yr adeg hon o newid mawr. Mae'r teimlad hwn yn cael ei chwyddo yn dilyn yr ymgyrch ariannu torfol leol.

A gaf i ofyn i chi, felly, helpu i sicrhau y gall Cyngor Caerdydd ddarparu'r arian sydd ei angen i ddelio â'r broblem ddraenio? Nid yw'n swm enfawr o arian - a byddai'n golygu llawer iawn i drigolion Radur a Threforgan pe gallech chi helpu.

Gyda dymuniadau gorau



Huw Jones
Cadeirydd
Cyngor Cymuned Radur a Threforgan